# Baban yn y bag!

**Yn ein drama, mae'r cymeriadau'n ceisio symud ymlaen o'r holl drybini wrth yrru Taliesin bychan i lawr yr afon. Ond pa gwdyn cludo fydd orau? Mae Steph druan ar goll, methu'n lan a deall pam bod maint y bag yn bwysig. Dewch i ni drafod amcangyfrif.**

**Cam 1:** Cychwynnwch wrth wylio'r clip:



**Cam 2:** Nawr dangoswch fag i'r plant. Dywedwch eich bod yn bwriadu ei ddefnyddio i gludo pethau adref o'r dosbarth. Rôl y plant fydd penderfynu pa wrthrychau fydd yn ffitio yn y bag.

**Cam 3:** Dangoswch 6 gwrthrych i'r plant. Gofynnwch, *heb roi'r gwrthrych yn y bag, allwn ni ddyfalu os all e ffitio yn y bag?*

Siŵr o fod y gwnân nhw ddweud ei fod e'n bosib, felly ffwrdd a nhw i gael dechrau dyfalu. ***Does dim o'r***

**Fframwaith Rhifedd**

Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.

**Camau Cynnydd Mathemateg a Rhifedd**

Rwy'n gallu amcangyfrif a mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol priodol, cyn symud ymlaen i unedau safonol.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

***gwrthrychau i gael eu rhoi yn y bagiau eto, dyfalu yn unig!***

**Cam 4:** Cyflwynwch y gair *"amcangyfrif"* gan egluro ei fod yn well gair na *"dyfalu." Gallwn ni ddefnyddio gwybodaeth dyn ni'n ei wybod yn barod er mwyn dod i benderfyniad gwell.*

***Os ceir centimetrau eu defnyddio eisoes, neidiwch i Gam 6.***

**Cam 5:** Anogwch y plant i feddwl am ffyrdd o gymharu'r bag â'r gwrthrychau.

Ceisiwch awgrymu syniadau megis *"Alla'i gymharu hyd y bag gyda hyd fy mys,"* neu *"Beth am gyfri faint o flociau Lego alla'i adeiladu ar ei draws."*

Unwaith i'r disgyblion sylweddoli y gallan nhw gymharu hyd y bag gyda'r gwrthrychau, gadewch iddyn nhw fesur yr 8 gwrthrych a'r bag. Gawn nhw weithio mewn parau gan ddefnyddio unrhyw ddull y gallan nhw ei ddyfeisio.



**Cam 6:** Unwaith i'r plant gwblhau eu hamcangyfrif, trafodwch ddulliau'r plant i egluro pam bod angen unedau safonol.

*Yw dy fysedd yr un hyd a bysedd dy ffrind? Yw pob bloc Lego yr un fath? Pa mor fanwl oeddech chi'n gallu bod? Oedd eich bysedd yn symud rhwng y gwrthrychau?*

**Fframwaith Rhifedd**

Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.

**Camau Cynnydd**

**Mathemateg a Rhifedd**

Rwy'n gallu amcangyfrif a mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol priodol, cyn symud ymlaen i unedau safonol.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

**Cam 7:** Amser dangos sut i ddefnyddio pren mesur. Trafodwch gychwyn ar 0 a mesur at y cm cyfan agosaf i gychwyn.

Mesurwch y bag fel gweithgaredd dosbarth cyfan er mwyn cadarnhau dealltwriaeth. Yn olaf, gofynnwch i'r plant fesur pob gwrthrych. *Beth yw eu hamcangyfrifiad newydd? Pa wrthrychau fydd yn ffitio yn y bag?*

**Defnyddiwch y daflen wedi ei hatodi i gofnodi'r canfyddiadau a'r amcangyfrifon.** *Tynnwch lun o bob gwrthrych, ei fesur a phenderfynu a fydd e'n ffitio yn y bag.*

**Fframwaith Rhifedd**

Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.


**Camau Cynnydd**

**Mathemateg a Rhifedd**

Rwy'n gallu amcangyfrif a mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol priodol, cyn symud ymlaen i unedau safonol.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

# Her Llenwi'r Bag



**Bag yr Athro/Athrawes**

Hyd yr agoriad　　　　　　　　Hyd y bag

______ cm　　　　　　　　_______ cm

| **Gwrthrych 1** | **Hyd (cm)** |
|---|---|
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |
| **Gwrthrych 3** | **Hyd (cm)** |
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |
| **Gwrthrych 5** | **Hyd (cm)** |
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |

| **Gwrthrych 2** | **Hyd (cm)** |
|---|---|
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |
| **Gwrthrych 4** | **Hyd (cm)** |
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |
| **Gwrthrych 6** | **Hyd (cm)** |
| | |
| | **Fydd e'n ffitio?** |
| | |

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams